

# CYNLLUN GWELLA YSGOL HENBLAS - EDRYCH YN OL AC I'R DYFODOL!



2022-23 yn Ysgol  
Henblas mewn 4 munud!  
<https://youtu.be/0sn7bAOW97I>

Gwefan Ysgol Henblas:  
<http://ysgolhenblas.org/>

## UCHAFBWYNTIAU'R FLWYDDYN 2022-23

"Llongyfarchiadau i chi i gyd ar ddiwrnod chwaraeon hollol wych. Roedd yr ymdrech a wnaeth staff yr ysgol yn rhagorol...oedd yn golygu fod y prynhawn yn llwyddiant ysgubol. Roedd yn wych gweld cymaint o blant heini a hapus yn mwynhau chwaraeon gyda'u frindiau. Cefais sioc o weld faint o rieni oedd yno, angen tair ras ar gyfer y ras wy ar lwy yn dweud y cyfan. Digwyddiad cymunedol go iawn a oedd yn glod gwirioneddol i'r ysgol." Cynghorydd Doug Fowle.



"Croeso cyfeillgar iawn ac roedd y plant yn ymgylltu ymhb sesiw, gan ofyn digon o gwestynau. Diolch i'r staff am fod mor gymwynasgar a chroesawgar." Osian Jones, athlewr rhyngwladol.

"Waw! Trydydd tro yn olynol. Campus unwaith eto! Falch iawn o weld cymuned yn dod at ei gilydd i gefnogi tim Henblas!" Rhiant Ysgol Henblas.



"Wel am bleser! Ysgol rhagorol! Mor groesawgar. Plant, staff a lleoliad hollol wych. Diolch o galon am y croeso. Plis gawn ni ddod yn ôl?!" Ian Keith Jones, Garddio a Mwy.



"Diolch yn fawr iawn. Roedd yn sesiwn arbennig iawn." Avantika Sharma, Pennaeth Ysgol Solan, Himachal Pradesh, India



"Diolch am y croeso arbennig heddiw! Roedd yn bleser i ymweld ag ysgol mor hyfyrd! Diolch am ddiwrnod bendigedig." Elwen Roberts, Hybu Cig Cymru.



"Edrych fel trip ffantastig!" Twinkl Cymru (ymweliad a Fferam y Llan). "Diolch o galon Ysgol Henblas am y daith, mae yr holl waith yn edrych yn anhygoel!" Rhiant Ysgol Henblas



"Diolch yn fawr iawn am groesawu a rhedeg yr ymgyrch!!! Mae'n wych gweld cymaint o arddwriaethwyr bach brwdfrydig." Eleni Siasou-Stathakou (cwmni ICL).



"Wedi gwir fwynhau diwrnod creadigol iawn efo plant annwyl a brwdfrydig. Da hefyd oedd eu parodrwyd i siarad Cymraeg gydol y diwrnod." Rhian Cadwaladr(actores).



"Plant yn ymateb yn wych - yn frwdfrydig ac yn barod i fentro. Unigolion yn barod i ddyfalbarhau - ac yn profi llwyddiant. Da iawn chi!" Debbie Humphreys, Sustrans.





EIN CRYFDERAU: CYMUNED HAPUS AC YMDEIMLAD CRYF O RANDDEILIAID YN PERTHYN I DEULU CLOS.



**Meysydd Adolygu** - Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau parhaus o fewn y meysydd canlynol:

- Arweinyddiaeth;
- Cwricwlwm;
- Addysgu a Dysgu;
- Lles, Tegwch a Chynhwysiant;

### Arweinyddiaeth

- Gweledigaeth glir gyda chyfraniad yr holl randdeiliad.
- Prosesau monitro manwl a'r holl gymuned yn cael rhoi eu barn.
- Disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol.
- Cydweithio gydag ysgolion eraill.
- Diwylliant o arloesi a phardoddrwydd i ymchwilio er budd ein dysgwyr.

### Cwricwlwm

- Cwricwlwm sydd yn cynnig profiadau dysgu cyffrous i ddysgwyr.
- Amrywiaeth dda o ymweliadau a chyfleoedd allgysiol i atgyfnerthu'r profiadau hynny i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.
- Llais y dysgwyr a rhieni yn cael lle amlwg wrth gynllunio.
- Cyfathrebu rheolaidd er mwyn sicrhau fod rhieni yn ymwybodol o gynnydd dysgwyr.
- Ymglymiad a rhyngweithio cymunedol.
- Gardd yr ysgol yn enghraifft o gydweithio arbennig rhwng rhieni a'r dysgwyr.

### Addysgu a dysgu

- Amgylchedd ddysgu diogel a diddorol.
- Parch amlwg rhwng dysgwyr a staff
- Ethos lle mae dysgwyr yn barod i fentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.
- Ffocws parhaus ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gyson ar draws yr ysgol.
- Strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol wedi eu sefydlu yn gyson ar draws yr ysgol.



### Lles, Tegwch a Chynhwysiant

- Taith ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi ei sefydlu'n gadarn ym mywyd pob dydd yr ysgol.
- Cydlynnydd ADY yn wybodus iawn o'r ddeddf wrth arwain y staff a'r dysgwyr.
- Amrywiaeth cyfoethog o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd.
- Ysgol gynhwysol sydd yn cefnogi holl anghenion ac anabledau unrhyw ddysgwr.
- Trefniadau cadarn ar gyfer diogelu dysgwyr yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau diogelu Llywodraeth Cymru.

## LLWYDDIANT BLAENORIAETHAU 2022-23

### Codi safonau darllen y Gymraeg ar draws yr ysgol.

- Buddsoddiwyd mewn adnoddau cefnogi darllen ar draws yr ysgol sydd wedi rhoi cyfle llwyddiannus i bob dysgwyr ddatblygu eu medrau darllen.
- Sesiynau grŵp dyddiol yn arwain at y dysgwyr yn cryfhau eu medrau darllen a deall.
- Cyfleoedd bywiog yn golygu fod y dysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn drawsgricwlaidd.
- Darparwyd canllaw i rieni drafod testunau yn y cartref gyda'r dysgwyr.

### Gwella medrau codio ar draws yr ysgol

- Dysgwyr yn gwneud defnydd cyfoethog o becynnau Lego Spike er mwyn rhaglennu eu modelau eu hunain.
- Darparwyd cyfleoedd medrus i ddysgwyr ddatblygu'r defnydd trawsgricwlaidd o godio yn y gweithgareddau ar lawr dosbarth.
- Y dysgwyr yn dyfalbarhau ac yn darganfod atebion eu hunain i broblemau codio.

### Gweithredu gofynion y cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws yr ysgol

- Datblygwyd fframwaith ADY yr ysgol yn gadarn yn unol a'r ddeddf newydd sydd yn golygu fod pob dysgwyr yn gallu cyflawni ei botensial.
- Datblygwyd trefn yr ysgol o sicrhau gwahaniaethu pwrpasol er mwyn cefnogi a herio pob dysgwyr.
- Datblygwyd map darpariaeth yr ysgol er mwyn ymateb i ofynion newydd Llywodraeth Cymru.

### Codi safonau rhesymu rhifyddol ar draws yr ysgol

- Y dysgwyr yn datblygu strategaethau eu hunain yn fedrus wrth resymu o ganlyniad i ddarpariaeth gyfoethog e.e. y defnydd o fatiau mathemateg, ac 'I see reasoning.'
- Cyfleoedd i ddatrys problemau yn gryf a dysgwyr yn gweld pwrpas i dasgau.
- Heriau gwahaniaethol yn caniatáu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau sylfaenol yn gryf.
- Dilysiant drwy'r ysgol o ran datblygiad a thaith y dysgwyr.

## Beth Nesaf?

Rydym yn datblygu'r ysgol ar sail blaenoriaethau cenedlaethol, lleol a'r hyn mae ein cymuned yn ei ddweud wrthym.

Er mwyn cyrraedd ein nod rydym yn troi at y gefnogaeth eang sydd ar gael ar hyd y daith.



## BLAENORIAETHAU GWELLA 2023-24

Dyma'r meysydd datblygu y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024 er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gorau er lles ein dysgwyr.

## 1 Siarter Iaith



- Sicrhau cynnydd yn nefnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg yn yr ysgol, ar yr iard ac yn y gymuned.
- Darparu cwricwlwm sydd yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sydd yn meithrin dysgwyr â balchder yn eu Cymreictod a diwylliant eu hardal leol.
- Pob dysgwr yn cael cyfle i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru gan werthfawrogi digwyddiadau'r gorffennol.

- Dyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr o hunaniaith ac e-ddiogelwch.
- Codi safonau cymhwysedd digidol ar draws yr ysgol
- Y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn adnabod manteision/anfanteision cyfryngau digidol ar les gan gynnwys agweddau o:
  - a) bwysigrwydd cydbwysedd a rheoli amser ar lein
  - b) effeithiau corfforol/emosïynol o chwarae/gwyllo cynnwys/gemau



## Dysgwyr digidol gwybodus 2

## 3 Dysgwyr yn gweithredu ar adborth cyfoethog



- Darparu adborth ar waith i ddysgwyr sydd yn eu cefnogi yn effeithiol a'u cynorthwyo i wneud cynnydd amlwg.
- Sicrhau fod bron pob un o'r dysgwyr yn gweithredu yn llwyddiannus ar yr adborth er mwyn gwella eu gwaith.
- Egwyddorion adborth ar waith yn effeithiol ac yn gyson gan sicrhau safonau dysgu ac addysgu da ar draws yr ysgol.

## Presenoldeb

- Codi canran presenoldeb y dysgwyr – targed 95% (92.7% yn 2022-23).
- Codi proffil presenoldeb ymhlith dysgwyr a rhieni, fel eu bod yn deall effaith presenoldeb ar gyrhaeddiad a chyfleoedd mewn bywyd.
- Rhoi strategaethau ar waith i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.



## 4

## Pwy sy'n Cefnogi?

- Cydweithio gydag ysgolion eraill
- Cynllun cefnogaeth gan wasanaeth cefnogi ysgolion (GWE)
- Cynllun hyfforddiant a chydweithio rhwng staff